Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Diwygiadau AHO
Yr Is-adran Addysg Uwch
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

18 Tachwedd 2020

Annwyl Syr/Fadam,

Par: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil Drafft

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'ch ymgynghoriad ynglŷn â drafft y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sy'n amlinellu'r cynigion i sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil. [1] Tra fy mod yn croesawu'r cynigion yn y Bil drafft, mae'n hanfodol, fel yr wyf wedi'i nodi yn fy ymgynghoriad blaenorol, bod y Comisiwn newydd yn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer pobl hŷn.

Bydd angen i'r Comisiwn ymgymryd â gwaith i nodi anghenion penodol pobl hŷn mewn lleoliadau addysg a hyfforddi, datblygu ffyrdd i annog pobl hŷn i chwilio am y cyfleoedd hynny a sicrhau bod ganddyn nhw gydraddoldeb mynediad. Nid yw'r model ymddeol traddodiadol mwyach yn berthnasol ar gyfer llawer o bobl hŷn, ac mae nifer cynyddol yn dymuno, neu angen, gweithio am gyfnod hirach. Er mwyn gwneud hyn, mae'n hanfodol bod cyfleoedd dysgu a hyfforddi priodol ar gael.

Mae effaith Covid-19 ar gyflogaeth ymysg gweithwyr hŷn yn cael ei rhagamcanu i fod yn sylweddol a bydd llawer yn wynebu'r her o ymdrin ag effeithiau emosiynol o golli eu swyddi, yn ogystal â'r effaith ddistrywiol y bydd yn ei gael ar eu llesiant ariannol a chorfforol.

Mae ceiswyr gwaith hŷn yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio cael ailfynediad i'r gweithlu a all gynnwys: gwahaniaethu ar sail oed, gweithleoedd nad ydyn nhw'n cefnogi gweithluoedd ag amrywiaeth oedran a gweithluoedd aml-genhedlaeth neu ddarparu hyblygrwydd ar gyfer anghenion gofalwyr, a wynebu'r mythau a'r camdybiaethau a geir yn aml ynglŷn â gweithwyr hŷn.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydw i eisiau sicrhau nad yw cyfleoedd ar gyfer dysgwyr hŷn, ceiswyr gwaith a hyfforddeion yn cael eu heffeithio yn anghymesur gan y pandemig ac rydw i'n disgwyl i bobl hŷn dderbyn mynediad cyfartal at help a gwasanaethau cymorth er mwyn hybu rhagolygon dysgu a gwaith.

Bydd angen annog pobl hŷn i gymryd rhan a bod yn ymwybodol bod y cyfleoedd dysgu a hyfforddi sy'n cael eu cyflwyno ar gael iddyn nhw. Felly, mae'n rhaid i'r negeseuon, y delweddau a'r marchnata ynghylch cyfleoedd dysgu a hyfforddi fod yn eglur ac yn gynhwysol a chefnogi pobl hŷn i gael yr hyder i ymgysylltu â'r cyfleoedd hyn er mwyn adnewyddu neu gryfhau eu setiau sgiliau presennol neu ddysgu sgiliau newydd ar gyfer amgylchedd gwaith sy'n newid.

Yn fy ymateb i'r ymgynghoriad, 'Dysgu Oedolion yng Nghymru – Ymgynghoriad ynglŷn â chyllido a chyflawni strwythur dysgu oedolion yng Nghymru'[2], tynnais sylw at y ffaith fod pobl hŷn angen mynediad at addysg am wahanol resymau. Tra ar gyfer rhai, mae dysgu ynglŷn â chynyddu setiau sgiliau a chymwysterau newydd er mwyn aros yn y gweithle neu ddychwelyd iddo, ond i eraill, yn arbennig y rhai hynny sydd wedi ymddeol, mae dysgu ynglŷn ag ysgogi'r meddwl, heriau newydd a chynnal rhyngweithiad cymdeithasol.

Mae'n rhaid i'r Comisiwn wella amrywiaeth y cyfleoedd sydd yn cael eu cynnig i bobl hŷn er mwyn ymgysylltu â dysgu mewn lleoliadau ffurfiol a lleoliadau anffurfiol ac ar draws gwahanol sectorau, yn ogystal â dangos ymrwymiad dilys ar gyfer dull pob oed.

Mae cau gwasanaethau cymunedol 'hanfodol' a lleihau'r ddarpariaeth, gan gynnwys llai o fynediad at ddysgu gydol oes a dysgu oedolion yn y gymuned, wedi cael effaith ddifrifol ar iechyd a llesiant rhai pobl hŷn, gan gyfyngu ar eu cyfleoedd i gael rhyngweithio yn gymdeithasol mewn lleoliad cymunedol. I eraill, mae wedi effeithio ar eu rhagolygon am waith drwy gyfyngu ar eu gallu i ennill sgiliau newydd, datblygu eu hyder yn ddigonol i archwilio ffyrdd amgen i ddychwelyd i'r gweithle, fel prentisiaethau pob oed neu fentro i hunangyflogaeth.

Mae cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned wedi lleihau yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar ac mae wedi rhwystro datblygu cwricwlwm ar gyfer cyfnod hwyrach mewn bywyd, gan atal pobl hŷn rhag derbyn gwybodaeth allweddol a sgiliau newydd, fel rheoli cyllid neu ddysgu sut i ddefnyddio technolegau digidol gyda hyder, problem a ddaeth i'r amlwg llawer iawn yn ystod pandemig y Covid-19.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi gweld cryfder a photensial cadarnhaol ein cymunedau, gan dynnu'r cenedlaethau ynghyd er mwyn cefnogi a diogelu'r rhai mwyaf bregus. Ni allwn ni fforddio colli'r synnwyr cyffredin o bwrpas a pherthyn. Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn chwarae rhan hanfodol yng ngwead bywyd cymunedol.

Yn fy adroddiad, 'Gadael neb ar ôl – Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn'[3], rydw i wedi gofyn am fentrau sy'n cryfhau cymunedau i fod yn rhan hanfodol o'n hadferiad ac i ddysgu gydol oes gael ei sefydlu fel hawl, fel bod pobl o bob oed yn gallu cael mynediad at gyfleoedd addysg a hyfforddiant. Yn ogystal, rydw i wedi gofyn am adolygiad o'r gefnogaeth sydd ar gael ei weithwyr hŷn a'r math o ymyriadau sy'n cael eu cynnig a allai

gefnogi pobl hŷn i aros mewn gwaith, neu gael gwaith eto, neu'u caniatáu nhw i archwilio'r dewis o hunangyflogaeth.

Cyn Covid-19, amcangyfrifwyd bod pobl a oedd dros 65 oed yn cyfrannu mwy na £2.19bn i economi Cymru bob blwyddyn[4], tra bod y rhai hynny dros 50 yn ffurfio dros draean o'r gweithlu[5]. Mae'n rhaid i bobl hŷn beidio â chael eu heithrio wrth i Gymru ailadeiladu ei heconomi, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr allweddol, hanfodol yn adferiad economaidd Cymru o'r pandemig.

Bydd gan y Comisiwn newydd swyddogaeth ganolog i chwarae wrth gyflawni'r mentrau hynny a gallai ddarparu gweledigaeth drosfwaol o ddull gydol oes wirioneddol tuag at ddysgu a thrwy dynnu ar ymarfer da o gwmpas y byd, gallai wella cyfleoedd dysgu a hyfforddi ar gyfer pobl o bob oed yng Nghymru.

Mae'n hanfodol bod llais pobl hŷn yn cael ei glywed a'i ddefnyddio i sbarduno agenda dysgu oedolion yng Nghymru ac mae'n rhaid i gyflawni dysgu oedolion hefyd ystyried synergeddau â materion ehangach, fel mynediad at gludiant cyhoeddus a lleoliadau hygyrch.

Rydw i'n gobeithio bod y sylwadau hyn yn ddefnyddiol. Os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, mae croeso i chi gysylltu â George Jones, fy Arweinydd Gwasanaethau Cymunedol a Chynhwysiant, ar 03442 640 670 neu drwy anfon e-bost at george.jones@olderpeoplewales.com



Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[1] Llywodraeth Cymru. (2020). *Drafft y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.* Ar gael yn: https://bit.ly/3ngXIeK

[2] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. *(*2018) *Dysgu Oedolion yng Nghymru.* Ar gael yn: https://bit.ly/3pfpMB8

[3] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. (2020). *Gadael neb ar ôl: Camau Gweithredu ar gyfer Adferiad o blaid Pobl Hŷn*. Ar gael yn: https://bit.ly/34ZIc0K

[4] Edwards, R. T et al. (2018) *Byw yn dda yn hirach: Y ddadl economaidd dros fuddsoddi yn iechyd a llesiant pobl hŷn yng Nghymru.* Ar gael yn: https://bit.ly/3lm3ueM

[5] Llywodraeth Cymru. (2020). *Coronafeirws a chyflogaeth: dadansoddiad ar nodweddion gwarchodedig*. Ar gael yn https://bit.ly/2IrF4lF